| | |
|---|---|
| **Cardiff Council**<br>**Replacement Local Development Plan Examination**<br>**Hearing Session 13 – 14.00-17.00, 30 June 2026**<br><br>**Virtual**<br><br>**Minerals and Waste** | **Cyngor Caerdydd**<br>**Cynllun Datblygu Lleol Newydd Archwiliad**<br>**Sesiwn Gwrandawiad 13 – 14.00-17.00, 30 Mehefin 2026**<br><br>**Rhithwir**<br><br>**Mwynau a Gwastraff** |
| **Issue - Does the LDP make adequate provision for minerals and waste?** | **Mater - Ydy'r CDLl yn gwneud darpariaeth ddigonol ar gyfer mwynau a gwastraff?** |
| **1. Opening and introductions** | **1. Agor a chyflwyniadau** |
| **2. Minerals** | **2. Mwynau** |
| *Assessment of Mineral Need* | *Asesiad o Angen Mwynau* |
| 2.1 What evidence has the Council relied upon to identify the need for aggregates and other minerals over the plan period, and how up to date is that evidence? | 2.1 Pa dystiolaeth y mae'r Cyngor wedi dibynnu arni i nodi'r angen am agregau a mwynau eraill dros gyfnod y cynllun, a pha mor gyfredol yw'r dystiolaeth honno? |
| 2.2 Has the Council followed recognised methodologies and the latest regional apportionment when establishing its mineral need, and how is this reflected in the Plan's strategy? | 2.2 A yw'r Cyngor wedi dilyn methodolegau cydnabyddedig a'r dosraniad rhanbarthol diweddaraf wrth sefydlu ei angen mwynau, a sut mae hyn yn cael ei adlewyrchu yn strategaeth y Cynllun? |
| 2.3 What evidence demonstrates that the Plan will deliver its requirement of 7.475 million tonnes of crushed rock by 2041? | 2.3 Pa dystiolaeth sy'n dangos y bydd y Cynllun yn cyflawni ei ofyniad o 7.475 miliwn tunnell o gerrig mâl erbyn 2041? |
| 2.4 When is the next regional apportionment exercise expected to be undertaken, and how would the Plan respond to any future changes in apportionment requirements should they arise? | 2.4 Pryd y disgwylir i'r ymarfer dosrannu rhanbarthol nesaf gael ei gynnal, a sut y byddai'r Cynllun yn ymateb i unrhyw newidiadau yn y dyfodol mewn gofynion dosrannu pe baent yn codi? |
| *Provision for Mineral Supply* | *Darpariaeth ar gyfer Cyflenwad Mwynau* |
| 2.5 Does the Plan, taken as a whole, make provision for a steady and adequate supply of minerals throughout the plan period? | 2.5 A yw'r Cynllun, yn ei gyfanrwydd, yn gwneud darpariaeth ar gyfer cyflenwad cyson a digonol o fwynau trwy gydol cyfnod y cynllun? |
| 2.6 Has the planning permission to deepen Taffs Well Quarry been considered in assessing supply and landbanks? | 2.6 A yw'r caniatâd cynllunio i ddyfnhau Chwarel Ffynnon Taf wedi'i ystyried wrth asesu cyflenwad a banciau tir? |
| 2.7 Have any other applications for mineral working been submitted or determined | |

| | |
|---|---|
| within Cardiff and/or the Cardiff city sub-region since publication of the Deposit LDP, and if so, what implications do they have for the Plan's assumptions, Policy SP11, and the wider suite of minerals policies?<br><br>2.8 Does the Plan demonstrate sufficient flexibility to respond to any future shortfall in mineral supply; and should the Plan make provision to assist in meeting any potential future apportionment shortfall in the sub-region?<br><br>2.9 Is it necessary for the Plan to identify further allocations, preferred areas or areas of search to ensure it provides a robust framework for meeting current or future requirements, including those in the wider sub-region?<br><br>*Safeguarding of Mineral Resources and Infrastructure*<br><br>2.10 Are mineral safeguarding areas and buffer zones appropriately defined and justified by the evidence base; and will such areas provide proportionate and effective protection against the sterilisation of mineral resources?<br><br>2.11 Is the Council satisfied that sufficient measures are available to prevent mineral operations at the sites identified by Policy MW3?<br><br>*Environmental Protection, Restoration and Amenity*<br><br>2.12 How do the Plan's minerals policies ensure that environmental effects and impacts on local communities, such as noise, dust, traffic and landscape harm, are fully assessed and appropriately controlled?<br><br>2.13 What actions will the Council take to ensure that approved restoration schemes are implemented in practice and that sufficient funding is available to complete them?<br><br>2.14 How appropriate is housing allocation H2.4, having regard to its proximity to an operational wharf with potential for noise, dust, HGV | 2.7 A yw unrhyw geisiadau eraill ar gyfer gwaith mwynau wedi'u cyflwyno neu eu penderfynu yng Nghaerdydd a/neu is-ranbarth dinas Caerdydd ers cyhoeddi'r CDLl ar Adnau, ac os felly, pa oblygiadau sydd ganddynt i ragdybiaethau'r Cynllun, Polisi SP11, a'r gyfres ehangach o bolisïau mwynau?<br><br>2.8 A yw'r Cynllun yn dangos digon o hyblygrwydd i ymateb i unrhyw ddiffyg cyflenwad mwynau yn y dyfodol; ac a ddylai'r Cynllun wneud darpariaeth i gynorthwyo i ddiwallu unrhyw ddiffyg dosrannu posibl yn yr is-ranbarth yn y dyfodol?<br><br>2.9 A oes angen i'r Cynllun nodi dyraniadau pellach, ardaloedd a ffefrir neu ardaloedd chwilio er mwyn sicrhau ei fod yn darparu fframwaith cadarn ar gyfer bodloni gofynion presennol neu yn y dyfodol, gan gynnwys y rhai yn yr is-ranbarth ehangach?<br><br>*Diogelu Adnoddau a Seilwaith Mwynau*<br><br>2.10 A yw ardaloedd diogelu mwynau a pharthau clustogi wedi'u diffinio a'u cyfiawnhau'n briodol gan y sylfaen dystiolaeth; ac a fydd ardaloedd o'r fath yn darparu amddiffyniad cymesur ac effeithiol rhag sterileiddio adnoddau mwynol?<br><br>2.11 A yw'r Cyngor yn fodlon bod mesurau digonol ar gael i atal gweithrediadau mwynau ar y safleoedd a nodwyd gan Bolisi MW3?<br><br>*Diogelu'r Amgylchedd, Adfer ac Amwynder*<br><br>2.12 Sut mae polisïau mwynau'r Cynllun yn sicrhau bod effeithiau amgylcheddol ac effeithiau ar gymunedau lleol, megis sŵn, llwch, traffig a niwed i dirwedd, yn cael eu hasesu a'u rheoli'n briodol?<br><br>2.13 Pa gamau y bydd y Cyngor yn eu cymryd i sicrhau bod cynlluniau adfer cymeradwy yn cael eu gweithredu yn ymarferol a bod digon o gyllid ar gael i'w cwblhau?<br><br>2.14 Pa mor briodol yw dyraniad tai H2.4, o ystyried ei agosrwydd at lanfa weithredol gyda photensial ar gyfer |

| | |
|---|---|
| movements and unsociable working hours?<br><br>**3. Waste**<br><br>*Waste Arisings and Capacity Requirements*<br><br>3.1 What methodology has been used to forecast waste arisings over the plan period, and is it robust and proportionate?<br><br>3.2 Does the Plan identify any shortfall in waste management capacity, and how does the Council propose to address this?<br><br>*Adequacy and Deliverability of Waste Sites*<br><br>3.3 Given the anticipated planning applications for additional waste management facilities, including for treatment and recovery, waste transfer, and energy from waste, should the Plan identify specific sites to meet these and other potential activities?<br><br>3.4 Given that some waste uses may fall within the B Use Class and be appropriately located on employment land, what implications does this have for the Plan's ability to maintain a sufficient supply of land for non-waste industrial and warehousing uses, particularly in light of identified shortfalls, and how is this managed through the Plan's strategy and policies?<br><br>*Policy Clarity and Flexibility*<br><br>3.5 Do policies SP23 and MW8, taken together, support the provision of a wide-ranging and diverse waste infrastructure that meets identified needs?<br><br>3.6 Are the criteria-based approaches in policy MW8 sufficiently clear and robust, including how the criteria are intended to be applied in decision-making?<br><br>**4. Action Points** | sŵn, llwch, symudiadau cerbydau nwyddau trwm ac oriau gwaith anghymdeithasol?<br><br>**3. Gwastraff**<br><br>*Sgil-gynhyrchion Gwastraff a Gofynion Capasiti*<br><br>3.1 Pa fethodoleg sydd wedi'i defnyddio i ragweld sgil-gynhyrchion gwastraff dros gyfnod y cynllun, ac a yw'n gadarn ac yn gymesur?<br><br>3.2 A yw'r Cynllun yn nodi unrhyw ddiffyg mewn capasiti rheoli gwastraff, a sut mae'r Cyngor yn bwriadu mynd i'r afael â hyn?<br><br>*Digonolrwydd a Chyflawnadwyedd Safleoedd Gwastraff*<br><br>3.3 O ystyried y ceisiadau cynllunio disgwyliedig ar gyfer cyfleusterau rheoli gwastraff ychwanegol, gan gynnwys ar gyfer trin ac adfer, trosglwyddo gwastraff, a throi gwastraff yn ynni, a ddylai'r Cynllun nodi safleoedd penodol i fodloni'r gweithgareddau hyn a gweithgareddau posibl eraill?<br><br>3.4 O ystyried y gall rhai defnyddiau gwastraff fod o fewn y Dosbarth Defnydd B ac wedi'u lleoli'n briodol ar dir cyflogaeth, pa oblygiadau sydd gan hyn i allu'r Cynllun i gynnal cyflenwad digonol o dir ar gyfer defnyddiau diwydiannol a warysau nad ydynt yn wastraff, yn enwedig yng ngoleuni'r diffygion a nodwyd, a sut mae hyn yn cael ei reoli drwy strategaeth a pholisïau'r Cynllun?<br><br>*Eglurder a Hyblygrwydd Polisi*<br><br>3.5 A yw polisïau SP23 a MW8, gyda'i gilydd, yn cefnogi darparu seilwaith gwastraff eang ac amrywiol sy'n diwallu anghenion a nodwyd?<br><br>3.6 A yw'r dulliau sy'n seiliedig ar feini prawf ym mholisi MW8 yn ddigon clir a chadarn, gan gynnwys sut y bwriedir cymhwyso'r meini prawf wrth wneud penderfyniadau?<br><br>**4. Camau Gweithredu** |